

YMCA Diploma in Exercise Referral Level 3



Yn gwyno

Gyda nifer cynyddol o gynlluniau atgyfeirio, mae galw mawr am yr arbenigedd hwn ac mae'n werth chweil ac yn hynod broffidiol. Ar y cwrs hwn byddwch yn dysgu sut i ddarparu cymorth/cyngor a dylunio rhaglenni ymarfer corff i bobl â chyflyrau meddygol penodol sydd yn rhoi eu hiechyd mewn perygl.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

... Gweithwyr ffitrwydd proffesiynol cymwys

... Unrhyw un sydd eisiau bod yn Hyfforddwr Atgyfeirio Ymarfer Corff

Cynnwys y cwrs

Ymdrinnir â gwybodaeth a dealltwriaeth yn ymwneud â'r cymhwyster hwn gan gynnwys:

Egwyddorion casglu gwybodaeth i gynllunio rhaglen atgyfeiriadau ymarfer corff, egwyddorion

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

strategaeth risg mewn atgyfeiriad ymarfer corff ac egwyddorion a phrosesau cadw cofnodion. Sut i nodi amcanion gyda chleifion atgyfeiriadau ymarfer corff a chyfarwyddo, addasu ac adolygu sesiwn ymarfer corff gyda'r cleifion hyn. Sut i gynllunio, paratoi, monitro ac addasu rhaglen atgyfeiriad ymarfer corff gyda chleifion a deall pwysigrwydd newid ymddygiad hirdymor ar gyfer y cleifion hyn.

Y systemau gofal iechyd cyfredol yn y DU, y broses atgyfeiriadau ymarfer corff, rolau a chyfrifoldebau'r gweithiwr proffesiynol o fewn cynllun atgyfeiriadau ymarfer corff a phwysigrwydd atgyfeiriadau ymarfer corff, polisiau perthnasol a dogfennau allweddol. Y cysyniad o ddull sy'n canolbwyntio ar y claf.

Nodweddion clinigol cyflyrau meddygol perthnasol i raglenni atgyfeiriadau ymarfer corff, y berthynas rhwng ymarfer corff ac atgyfeiriadau arbenigol ar gyfer cyflyrau meddygol, y dulliau a dderbynnir ar gyfer triniaeth/rheolaeth cyflyrau meddygol perthnasol i raglenni atgyfeiriadau ymarfer corff a sut i gynnal rhaglenni ymarfer corff diogel, effeithiol ar gyfer cleifion gyda chyflyrau meddygol sydd angen atgyfeiriadau ymarfer corff arbenigol.

Byddwch yn cael eich asesu yn y ffyrdd canlynol fel rhan o'r cwrs:

Gwaith cwrs
Portffolio o dystiolaeth
Arddangosiad/aseiniad ymarferol
Arholiad ymarferol

Gofynion Mynediad

Er mwyn cael mynediad i'r cwrs hwn, mae angen i chi fod â'r cymhwyster Hyfforddiant Personol Lefel 3.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn gallwch symud ymlaen i:

Gyflogaeth gyda Chynlluniau Atgyfeiriadau Ymarfer Corff o fewn y diwydiant ffitrwydd.
Gwobr Lefel 2 mewn Cyflwyno Ymarfer Corff ar Sail Cadair
Tystysgrif Lefel 4 mewn Rheoli Pwysau ar gyfer Unigolion sy'n Ordew neu sydd â Diabetes Mellitus a/neu Syndrom Metabolig ar Gampws Usk.
Cymwysterau arbenigol Lefel 4 eraill.